| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 12 Rhagfyr 2017 |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | Penodi Aelod Annibynnol Cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Dr Haydn Edwards – Cadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@anglesey.gov.uk<br>01248 752586 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cadarnhau penderfyniad Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |

## CEFNDIR

1. O dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) mae'n rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys dim mwy na 9 aelod, ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r rhain fod yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Mae'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd yn cynnwys 5 aelod annibynnol (yn cynnwys un sedd wag achlysurol), 2 gynghorydd cymuned (mae'r ddwy sedd yn wag) a dau gynghorydd sir (sy'n cael eu penodi'n flynyddol gan y Cyngor).

3. Mae'n rhaid i aelodau annibynnol gael eu penodi gan y Cyngor ar sail yr argymhelliad gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. Mae un sedd wag achlysurol ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd.

## SEDD WAG ACHLYSUROL AM AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU

4. Mae Rheoliadau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Safonau gael eu penodi gan y Cyngor, ond dim ond ar ôl cydymffurfio â phroses ddethol statudol. Er mwyn cynnal y broses recriwtio a dethol hon mae'r Cyngor Sir wedi dirprwyo ei awdurdod i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau; mae'r panel hwn yn cynnwys un aelod annibynnol o'r cyhoedd, un cynghorydd cymuned a thri chynghorydd sir. Ni chaiff unrhyw aelod o'r Panel Dethol fod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau hefyd.

5. Yng nghyfarfod Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 20 Medi 2017, cymeradwyodd y Panel y broses recriwtio a chafodd y sedd wag ei hysbysebu ar wefan y Cyngor a'i dudalennau Twitter a Facebook (o 20/09/17 tan 31/10/2017), yn y North Wales

Chronicle (ar 28/9/17 ac ar 5/10/2017) ac yn y Bangor and Anglesey Mail (ar 27/9/2017 ac ar 4/10/2017).

6. Daeth yr hysbyseb i ben ar 31 Hydref 2017 a rhoddodd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau sylw i'r ceisiadau a dderbyniwyd mewn proses tynnu rhestr fer a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2017.

7. Cafodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer eu cyfweld gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 27 Tachwedd 2017, a chytunodd y Panel i enwebu **Mr John Robert Jones** i'w benodi'n aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol; mae'r rheini bellach wedi'u derbyn ac wedi cael eu hasesu gan Gadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau.

**ARGYMHELLION**

Derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau fel a ganlyn:-

1. penodi **Mr John Robert Jones** yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, i ddod i rym yn syth;

2. petai sedd wag achlysurol arall am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi'n awtomatig **Ms Sarah Laing Gibbens** i'r rôl heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod bob tro bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei phenodi.